

Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C

10 Ebrill 2014, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 375

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Huw Jones	(Uwch Swyddog Ystadegol) <i>(Eitem 5 yn unig)</i>
	Bethan C. Williams	(Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
Ymddiheuriadau:	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)

1. Sylwadau Agoriadol a Datganiadau Diddordeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

**2. Cofnodion Cyfarfodydd 373 (13.02.14) a 374 (13.03.14)
a Materion yn Codi****2.1 Materion yn Codi**

Y posibilrwydd o wneud BBC Llandaf yn adeilad rhestredig. Adroddodd ECS fod Cadw wedi penderfynu peidio rhestru'r adeilad, a bydd hyn yn hwyluso'r gwerthiant. Mae'r amserlen yn rhagweld penderfyniad ar Fai'r 21ain.

2.2 Cymeradwywyd cofnodion 373.

Cymeradwywyd cofnodion 374.

2.3 Cofnodion 374a (Adleoli a Chydlleoli)

Gyda rhai mân welliannau derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar yr ymateb i'r Adleoli.]

3. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

Nododd y gefnogaeth a'r awgrymiadau a wnaed gan yr Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi a ddaeth ynghyd i glywed am ein cynlluniau i baratoi'r drafodaeth ynghlŷn ag ariannu digonol.

Adroddodd hefyd ar y sesiwn lle bu ef ac IHJ'n cyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor Cymunedau'r Cynulliad. Cafwyd cwestiynu digon teg a chefnogol. Roedd ein pwyslais ni ar flaenoriaeth sicrhau ariannu digonol. Byddai cofnod o'r sesiwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd y prif sylw yn y wasg i sylw'r Prif Weithredwr am y bwriad i ailgyflwyno gwasanaeth MU yn 2016. Dehonglwyd hynny fel cyhoeddiad er i IHJ nodi ei fod yn fwriad amodol.

Nodwyd penodiad yr Ysgrifennydd Gwladol newydd. Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu ato i'w longyfarch a gwneud cais am gyfarfod maes o law.

Nododd y Cadeirydd, yn sgil ymadawriad GJ, fod angen penodi aelod arall o'r Awdurdod i fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynnwys ac fe gymeradwywyd MWJ gan yr Awdurdod fel aelod o'r pwyllgor. Bydd adolygiad pellach o aelodaeth y pwyllgorau yn digwydd yn sgil penodi aelodau newydd.

4. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

[**Crynodeb:** Trafodwyd hyfforddiant yn y sector gynhyrchu a chamau Llywodraeth Cymru yn y maes. Croesawyd y ffaith fod pawb yn gytûn fod gan S4C swyddogaeth bwysig yn y maes.]

Adleoli/Cytleoli

Cytunwyd ei bod yn bwysig iawn sicrhau fod cofrestr risg benodol yn weithredol ar gyfer y prosiect a sicrhau fod yna broses graffu briodol ar gyfer y gofrestr honno.

Cytunwyd y dylid adolygu'r prosesau arferol o asesu risg gyda golwg ar symleiddio'r gofrestr sylfaenol a phenderfynu wedyn i ba raddau roedd risgiau'r prosiect hwn yn cael eu cynnwys o fewn y drefn oruchwylio risg arferol neu a oedd angen proses annibynnol. Cytunwyd y byddai'r Awdurdod yn dymuno medru cael gorolwg clir a chyson o'r risgiau yn ymwneud â'r prosiect.

Materion eraill

Logo a Gwefan newydd - Roedd Logo a Gwefan newydd S4C yn cael eu lansio heddiw.

Yr hawl i we-ddarlledu dramor - roedd y trafodaethau'n symud yn eu blaen gyda golwg ar ganiatáu gwe-ddarlledu rhai categorïau o raglenni, rhai ffeithiol ac adloniant ffeithiol yn benodol. Roedd trafodaethau wedi'u cychwyn gydag Equity.

Sicrhau arian digonol - cynhaliwyd sawl trafodaeth fewnol a'r bwriad yw cyhoeddi adroddiad 'gweledigaeth' ym mis Mai. Yr awgrym yw bod y cyhoeddiad yn cyfeirio at natur y gwasanaethau rydym yn teimlo sy'n angenrheidiol i'w darparu gan S4C, yn hytrach na chychwyn gyda dadl ynglŷn â swm penodol o arian. Bydd IHJ yn cyflwyno araith ar ddydd Mawrth Eisteddfod yr Urdd. Y bwriad fydd sbarduno trafodaeth a cheisio ennyn cefnogaeth gan ddefnyddwyr a gwylwyr i elfennau amrywiol o'r gwasanaeth, gan arwain yn nes ymlaen at ddadansoddiad o beth yw goblygiadau hynny'n ariannol, sef 'arian digonol'.

Nododd IHJ y byddai cyfle pellach i drafod prif benawdau'r ddogfen weledigaeth yn y cyfarfod nesaf.

5. **Cyflwyniad Ymchwil**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd HJ o'r Adran Ddadansoddi ei adroddiad ar ymchwil. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd pwysleisiwyd yr angen i ddeall ein cynulleidfa yn iawn. Trafodwyd y dulliau amrywiol o gael barn gwylwyr gan gynnwys dulliau TG4 a BBC Alba.]

6. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad am raglenni diweddar gan gyfeirio at nifer ar draws yr amserlen. Nodwyd yr her o gydweithio'n llwyddiannus â chyrff allanol. Roedd **Stormydd Mawr** yn dangos yr awydd i ymateb yn sydyn i ddigwyddiadau cyfoes o fewn yr amserlen.]

7. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd KM yr Adroddiad Cyllid ac yna trafodwyd a oedd y fformat yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i'r Awdurdod mewn ffordd syml a chlir. Cytunwyd ar ystyriaeth bellach o'r fformat ac ar ddadansoddiad mwy manwl o gostau'r Awdurdod.]

8. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ei adroddiad.

Nodwyd yn benodol y gwaith yn y gymuned sy'n digwydd ar hyn o bryd yn ardaloedd Rhuthun, Dyffryn Nantlle a Rhydaman. Roedd GLL wedi cynnal cyfarfodydd yn Rhuthun ddwywaith ac am fynd ati i geisio cael cysylltiad gyda rhai sydd ddim yn gwyllo neu sy'n wylwyr ysgafn iawn. Byddai hyn yn cael ei drefnu drwy ymchwilydd lleol ac estynnodd wahoddiad i aelodau fynychu'r sesiynau trafod hyn pe baent am wneud hynny.

9. **Adroddiadau Cwynion a Chydymffurfiaeth**

9.1 **Cwynion**

Cynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod.

9.2 **Adroddiad Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd adroddiad y Wifren Gwylwyr.

10. **Rhaglen Waith**

Nodwyd y Rhaglen Waith

11. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill

Dyddiad y cyfarfod nesaf: **dydd Iau, 15fed o Fai**